PWYLLGOR SAFONAU

DYDD LLUN, 3 EBRILL 2023

YN BRESENNOL: M. Dodd (Cadeirydd) (P);

Aelodau Annibynnol:
C. Davies (H), D. Evans (P), J. James (P), P. Rogers (H),

Aelod Cymunedol:
Y Cynghorydd P. Rogers (H)

Y Cynghorwyr:
G.B. Thomas (H)

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

[P = Presennol yn Neuadd y Sir. H = hirbell drwy Zoom]

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin ac o bell: 11.30 yb - 12.10 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Betsan Jones.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL
Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD A GYNHALWYD AR:

3.1. 27AIN CHWEFROR 2023;

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2023 i ddangos eu bod yn gofnod cywir, yn amodol ar nodi nad oedd y Cadeirydd yn Gynghorydd.

3.2. 7FED MAWRTH 2023

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a oedd wedi ei gynnal ar 7 Mawrth 2023 gan eu bod yn gywir.

4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD BETSAN JONES
Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Sir Betsan Jones am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin

ynghylch Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor ac adolygiad ac ailfodelu ôl troed ysgolion cynradd ledled y Sir. .

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Jones ddiddordeb personol a rhagfarnol yn y mater gan fod ei mab yn Bennaeth Ysgol Gymraeg Teilo Sant yn Llandeilo ac felly roedd y Rhaglen Moderneiddio Addysg, a'r adolygiad ysgolion cynradd yn berthnasol i hyn.

Dywedwyd bod y Cynghorydd Jones yn ceisio gollyngiad yn rhinwedd Rheoliad 2(2)(d) - mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd o ran cynnal busnes yr awdurdod perthnasol a Rheoliad 2(2)(f) - mae cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn cael ei gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.

Dywedwyd wrth y pwyllgor petai'n caniatáu cais y Cynghorydd Jones, byddai angen penderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd.

Yn dilyn trafodaeth,

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2 (2)(d) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Betsan Jones siarad, a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond NID pleidleisio ar fusnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor ac adolygiad ac ailfodelu ôl troed ysgolion cynradd ledled y Sir a bod y gollyngiad yn ddilys hyd ddiwedd y tymor etholiadol presennol.

5. TREFN Y MATERION - GOLLYNGIADAU YNGHYLCH CYNLLUN CYSYLLTU Â'R GRID TYWI WYSG BUTE ENERGY

Gan fod eitemau Agenda 5, 6, 7 ac 8 yn ymwneud â'r un mater, cafodd y tri chais eu hystyried gyda'i gilydd ond eu cofnodi ar wahân [cofnod 6,7,8 a 9 isod].
Fe wnaeth yr aelodau sylwadau ar nifer y ceisiadau am ollyngiadau a dderbyniwyd, ac o bosib eraill yr oeddent eto i'w derbyn, mewn cysylltiad â'r cynllun a nodwyd uchod, a'r goblygiadau posibl o ran cworwm ar gyfer cyfarfodydd cynghorau cymuned. Ymatebodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith y byddai'n ysgrifennu at glercod yr holl gynghorau cymuned ar hyd y llwybr cysylltiad arfaethedig i ganfod a oedd ceisiadau pellach am ollyngiad yn debygol. Yn hynny o beth byddai adroddiad ar yr ymatebion a gafwyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y cyfle cyntaf ac felly nid oedd yn angenrheidiol, ar hyn o bryd, i'r Pwyllgor ystyried rhoi awdurdod dirprwyedig iddi o ran yr adroddiadau i ganiatáu unrhyw geisiadau pellach am ollyngiadau a allai ddod i law.

6. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD CHERYL JONES

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Cymuned Cheryl Jones am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanarthne ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parc ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin. Byddai hyn yn rhan o gynllun cysylltu â'r Grid Tywi Wysg *Bute Energy.*

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Jones fuddiant personol a rhagfarnol mewn busnes o'r fath, gan y byddai'r cynigion roedd Bute Energy wedi eu cyflwyno yn effeithio arni hi a chymdeithion personol agos iddi.

Dywedwyd bod y Cynghorydd Jones yn ceisio gollyngiad yn rhinwedd Rheoliad 2(2)(d) - mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd o ran cynnal busnes yr awdurdod perthnasol a Rheoliad 2(2)(f) - mae cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn cael ei gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.

Dywedwyd wrth y pwyllgor petai'n caniatáu cais y Cynghorydd Jones, byddai angen penderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd.

Yn dilyn trafodaeth,

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2 (2) (d) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Cheryl Jones i siarad, a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond NID pleidleisio ar fusnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanarthne ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parciau ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin a byddai'r gollyngiad yn ddilys hyd at ddiwedd y tymor etholiadol presennol.

7. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD DAVID JONES

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Cymuned David Jones am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanarthne ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parc ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin. Byddai hyn yn rhan o gynllun cysylltu â'r Grid Tywi Wysg *Bute Energy.*

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Jones fuddiant personol a rhagfarnol mewn busnes o'r fath, gan y byddai'r cynigion roedd Bute Energy wedi eu cyflwyno yn effeithio arno ef a chymdeithion personol agos iddo.

Dywedwyd bod y Cynghorydd Jones yn ceisio gollyngiad yn rhinwedd Rheoliad 2(2)(d) - mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd o ran cynnal busnes yr awdurdod perthnasol a Rheoliad 2(2)(f) - mae cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn cael ei gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.

Dywedwyd wrth y pwyllgor petai'n caniatáu cais y Cynghorydd Jones, byddai angen penderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd.

Yn dilyn trafodaeth,

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2 2 (d) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd David Jones i siarad, a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond

NID pleidleisio ar fusnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanarthne ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parciau ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin a byddai'r gollyngiad yn ddilys hyd at ddiwedd y tymor etholiadol presennol.

8. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD MYFANWY JONES

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Cymuned Myfanwy Jones am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanarthne ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parc ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin. Byddai hyn yn rhan o gynllun cysylltu â'r Grid Tywi Wysg *Bute Energy.*

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Jones fuddiant personol a rhagfarnol mewn busnes o'r fath, gan y byddai'r cynigion roedd Bute Energy wedi eu cyflwyno yn effeithio arni hi a chymdeithion personol agos iddi.

Dywedwyd bod y Cynghorydd Jones yn ceisio gollyngiad yn rhinwedd Rheoliad 2(2)(d) - mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd o ran cynnal busnes yr awdurdod perthnasol a Rheoliad 2(2)(f) - mae cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn cael ei gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.

Dywedwyd wrth y pwyllgor petai'n caniatáu cais y Cynghorydd Jones, byddai angen penderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd.

Yn dilyn trafodaeth,

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2 (2) (d) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Myfanwy Jones i siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond NID pleidleisio ar fusnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanarthne ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parciau ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin a byddai'r gollyngiad yn ddilys hyd at ddiwedd y tymor etholiadol presennol.

9. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD CHRISTOPH FISCHER

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Cymuned Christoph Fischer am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Llandeilo ynghylch trosglwyddo trydan o Barc a datblygiadau parc ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin. Byddai hyn yn rhan o gynllun cysylltu â'r Grid Tywi Wysg Bute Energy.

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Fischer fuddiant personol a rhagfarnol mewn busnes o'r fath, oherwydd gallai'r cynigion gan Bute Energy effeithio o bosibl ar ei eiddo

Dywedwyd bod y Cynghorydd Fischer yn ceisio gollyngiad yn rhinwedd Rheoliad 2(2)(d) - mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd o ran cynnal busnes yr awdurdod perthnasol,
Rheoliad 2(2)(e) - mae'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran sylweddol o'r cyhoedd Rheoliad 2(2)(f) - mae cyfraniad yr aelod i'r busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn cael ei gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod

Dywedwyd wrth y Pwyllgor petai'n caniatáu cais y Cynghorydd Fischer, byddai angen penderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd.

Yn dilyn trafodaeth ,

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2 (2) (d) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Christoph Fischer siarad, a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond NID pleidleisio ar fusnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Llandeilo ynghylch trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil a datblygiadau parciau ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin a byddai'r gollyngiad yn ddilys hyd at ddiwedd y tymor etholiadol presennol.

10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972
Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

_____ _____

CHAIR **DATE**